C Y N G O R L L Y F R A U C Y M R U

GRANTIAU CYHOEDDI CYMRAEG

CANLLAWIAU

GRANTIAU I LANSIADAU A THEITHIAU

1 AMCANION

Amcan y cynllun yw hybu gwerthiant llyfrau Cymraeg trwy gynnig grantiau i gyhoeddwyr tuag at gostau lansiadau a theithiau arwyddo/hyrwyddo.

Mae Cyngor Llyfrau Cymru hefyd yn cynnig grantiau i lyfrwerthwyr, trwy'r Cynllun Ymestyn, ar gyfer gweithgarwch tebyg. Gall llyfrwerthwyr ddefnyddio'r Cynllun Ymestyn yn y modd arferol mewn perthynas â digwyddiadau a ariennir trwy'r Cynllun Grantiau i Lansiadau a Theithiau.

Mae'r arian ar gyfer y cynllun yn dod o'r gronfa arian marchnata o fewn y Grant Cyhoeddi Cymraeg. Cynlluniau eraill a gefnogir o'r gronfa honno yw'r cynllun hyrwyddwyr, cefnogaeth i swydd gyda Chwlwm y Cyhoeddwyr, ymgyrchoedd hysbysebu generig, a'r warws gwybodaeth sydd ar wefan y Cyngor, Y Fasnach Lyfrau Ar-lein http://www.wbti.org.uk/index.html.

2 CYMHWYSTER

Pwy sy'n gymwys i ymgeisio?

Mae'r cynllun yn agored i gyhoeddwyr sydd wedi derbyn grantiau cyhoeddi oddi wrth Gyngor Llyfrau Cymru ar gyfer y teitlau y bwriedir eu hyrwyddo.

Pa weithgareddau sy'n gymwys i dderbyn cefnogaeth?

- Cynigir grantiau ar gyfer trefnu lansiadau/ sesiynau arwyddo/sesiynau hyrwyddo mewn siopau, llyfrgelloedd, gwestai, neuaddau neu unrhyw leoliad addas arall.
- Rhaid i'r llyfrau a hyrwyddir fod yn llyfrau a gefnogwyd trwy un o gynlluniau grantiau Cyngor Llyfrau Cymru.
- Rhaid i'r llyfrau a hyrwyddir gael eu gwerthu yn y digwyddiad(au) gan lyfrwerthwr cydnabyddedig.
- Rhaid i'r llyfrwerthwr dderbyn y llyfrau a hyrwyddir trwy Ganolfan Ddosbarthu'r Cyngor Llyfrau. Bydd gofyn i'r stoc gyrraedd y Ganolfan Ddosbarthu o leiaf dri diwrnod gwaith cyn dyddiad y lansio, er mwyn sicrhau eu bod hwy'n cael eu dosbarthu'n eang, a bod siopau trwy Gymru yn gallu manteisio ar unrhyw gyhoeddusrwydd a ddaw yn sgil y lansiad.
- Wrth wneud cais am grant, gellir cynnwys amcangyfrifon ar gyfer costau sydd ynghlwm â'r digwyddiad, megis costau llogi ystafell, adloniant, lluniaeth, costau teithio a llety i awduron, deunydd cyhoeddusrwydd, etc. Ni ellir hawlio ffioedd i awduron.

3 BLAENORIAETHAU A MEINI PRAWF AR GYFER CLORIANNU CEISIADAU

Rhoddir blaenoriaeth i'r cynlluniau sy'n debygol o wneud y gwahaniaeth mwyaf o ran gwerthiant. Os bydd cyhoeddwr yn derbyn cymorth at ddwy elfen y cynllun (taith a lansiad), ac yn derbyn **mwy na £1500**, bydd yn rhaid i'r amcangyfrif o werthiant y llyfr fod yn sylweddol uwch na'r gwerthiant a ddisgwylid fel arall, a dylai'r rhediad argraffu adlewyrchu hynny.

4 Y GRANT

Ar hyn o bryd, mae cyllideb o hyd at £20,000 ar gael ar gyfer y grantiau hyn yn flynyddol.

Cynigir grant:

- **hyd at £1,000** ar gyfer trefnu lansiad, boed yn lansiad ar gyfer un llyfr neu ragor;
- **hyd at £1,500** ar gyfer trefnu taith arwyddo/hyrwyddo i awdur;
- **hyd at £2,500** ar gyfer trefnu lansiad a thaith arwyddo/hyrwyddo gan awdur. Gellir ystyried swm uwch na hyn mewn amgylchiadau arbennig.

Lle mae'r grant yn **£200** neu lai, ni ofynnir am brawf o wariant, ond gyda grantiau uwch na hynny gofynnir am gopïau o anfonebau. Nid yw'r grantiau yn ad-dalu'r costau'n gyfan.

5 SUT A PHRYD I YMGEISIO

- Rhaid ymgeisio ar y ffurflen gais briodol, sydd i'w chael o'r cyfeiriad ar ddiwedd y ddogfen hon.
- Dylai'r cais gyrraedd yr Adran Grantiau Cyhoeddi **o leiaf dair wythnos** cyn dyddiad y lansiad neu ddechrau taith arwyddo/hyrwyddo. Caiff y cyhoeddwr ddyfarniad o fewn ychydig ddyddiau fel arfer.
- Os cynigir grant, gwneir hynny yn unol ag amodau cyffredinol, yn ogystal ag unrhyw amodau arbennig a bennir yn achos cais unigol. **Disgwylir i bob ymgeisydd ymrwymo i'w derbyn wrth gyflwyno cais.**

6 TALU'R GRANTIAU

Gellir hawlio'r grant trwy anfon y ffurflen hawlio briodol, gan nodi'r costau terfynol.

7 MONITRO A GWERTHUSO'R GWAITH A GEFNOGWYD

Mae'r Cyngor Llyfrau yn derbyn ffigurau gwerthiant llyfrau grant yn rheolaidd. Hefyd, ar y ffurflen hawlio, gofynnir am nifer mynychwyr pob digwyddiad a gefnogwyd a nifer y llyfrau a werthwyd yn y digwyddiad.

Ceir ffurflenni cais a gwybodaeth bellach oddi wrth:

Richard Owen, Adran Grantiau Cyhoeddi, Cyngor Llyfrau Cymru, Castell Brychan, Aberystwyth, Ceredigion, SY23 2JB
Ffôn: 01970 624151 ffacs: 01970 625385 e-bost: richard.owen@cllc.org.uk